

Awgrymiadau Gwych ar gyfer gwella cyfranogiad



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Mae'r Comisiynydd Plant wedi bod yn gweithio gyda'i Phanel Ymgynghorol o Bobl Ifanc i greu awgrymiadau ar gyfer sut gallai ysgolion uwchradd greu cyngor ysgol gwych. Mae'r awgrymiadau yma wedi cael eu seilio ar egwyddorion [Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru](#).

Gwreiddio hawliau plant – gwneud yn siŵr bod hawliau plant yn ganolog i gyfranogiad mewn ysgolion uwchradd

- Bydd y Pennaeth yn gwneud yn siŵr bod holl aelodau cymuned yr ysgol (staff, disgyblion a llywodraethwyr) yn deall mai pwrpas cyngor yr ysgol yw helpu disgyblion i gael llais – Erthygl 12 o CCUHP.

Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu – gwneud yn siŵr bod POB disgybl yn cael cyfle cyfartal i fod yn rhan o benderfyniadau yn yr ysgol

- Bydd cyngor yr ysgol yn cynnal arolwg dienw o gymuned yr ysgol i weld oes yna unrhyw grwpiau o bobl ifanc sy'n teimlo'n llai abl i fod yn rhan o benderfyniadau, a pham maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu cymryd rhan.
- Bydd athro arweiniol cyfranogiad yn gweithio gyda phobl ifanc i roi cynnig ar ffyrdd newydd o gynyddu amrywiaeth cyngor yr ysgol, a sicrhau ei fod yn cynrychioli pawb e.e. lle ar gyfer cynrychiolwyr LHDTTC+, AAA.
- Bydd yr ysgol yn gwneud yn siŵr bod pleidleisio'n gallu digwydd trwy bleidlais gudd.

Grymuso plant – rhoi’r wybodaeth angenrheidiol i bobl ifanc fedru bod yn rhan o benderfyniadau a gweithio gydag arweinwyr a chorff llywodraethu eu hysgol

- Bydd Cyngorau Ysgol yn defnyddio dogfen y Comisiynydd Plant [Gwneud Gwahaniaeth – Canllaw Person Ifanc ar gyfer Gweithredu](#) i gael syniadau ac offer er mwyn cynnal cyfarfodydd, ystyried syniadau gwahanol, a gwneud newidiadau maen nhw eisiau eu gweld.
- Bydd cyngor yr ysgol yn ystyried strwythur y cyngor a rolau penodol ar gyfer disgyblion, ac yn sicrhau eu bod yn bwydo i’r corff llywodraethu ac yn deall sut mae’n gweithio.
- Bydd gan athro arweiniol cyngor yr ysgol ddigon o amser i ddatblygu cyfranogiad yn yr ysgol.

Cyfranogiad – gwneud yn siŵr bod barn pobl ifanc yn cael sylw ystyrlon

- Bydd cyngor yr ysgol yn cael rhoi barn ar lesiant yn yr ysgol, yn unol â'r [Fframwaith dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.](#)
- Bydd cynghorau ysgol a thimau arweinyddiaeth ysgol yn defnyddio strwythur fydd yn golygu bod cyngor yr ysgol yn ymgysylltu â phoblogaeth ehangach yr ysgol er mwyn llywio a rhoi adborth ar benderfyniadau.
- Nid athrawon fydd yn dewis aelodau cyngor yr ysgol na'r disgyblion sy'n llywodraethwyr cyswllt.

Atebolrwydd – gwneud yn siŵr bod cyrff llywodraethu ac arweinwyr ysgol yn atebol i gynghorau ysgol

- Bydd cadeiryddion cyrff llywodraethu yn cynnwys cyngor yr ysgol a'r disgyblion sy'n llywodraethwyr cyswllt yn eu gwaith.
- Bydd y Pennaeth a Chadeirydd y Corff Llywodraethu yn creu cyfleoedd i gyngor yr ysgol ddysgu sut mae eu cyfranogiad wedi dylanwadu ar benderfyniadau.